Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Therapi Cyn Treial ar gyfer Tystion sy'n Blant / Dioddefwyr ac Amheus

# Rhagair i'r Egwyddorion Sylfaenol a Chanllawiau'r CPS




Ratified by Board
Rhagfyr 2022

Protocols & Procedures Group

Revision Date:
Rhagfyr 2025

Rhagair

Yn unol ag egwyddorion Sicrhau'r Dystiolaeth Orau, mae'r canllawiau atodedig wedi'u cyhoeddi gan Wasanaeth Erlyn y Goron ynghylch therapi cyn-treial ar gyfer tystion/dioddefwyr sy'n blant. Mae'r un egwyddorion hyn hefyd yn berthnasol i blant a ddrwgdybir a lle mae angen therapi cyn-treial, bydd iechyd a lles y plentyn yn flaenoriaeth. Nid yw'n benderfyniad gan ymarferwyr cyfiawnder troseddol ac nid oes unrhyw ofyniad i ohirio mynediad at therapi o'r fath o ganlyniad i unrhyw ymchwiliad neu erlyniad parhaus gan yr Heddlu.

Wrth gwrs, dylid gwneud y llys yn ymwybodol bod therapi cyn-treial yn cael ei gynnal gyda thyst/dioddefwr neu rywun a ddrwgdybir ond rhaid i ymarferwyr ddeall a chydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol perthnasol o ran diogelu data/datgelu cynnwys y therapi hwnnw. Rhaid i geisiadau o'r fath gydymffurfio â deddfwriaeth, gan gynnwys y Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a chael eu hystyried yn llinell ymholi rhesymol o dan yr amgylchiadau neu'r fath a gyfarwyddir gan y llys, gan gyfeirio at ddiben a chwmpas clir. Ni all fod yn gais heb ffocws i bori ffeiliau i weld a yw'n berthnasol. Yn achos plant a ddrwgdybir, mae'n debygol y bydd trafodaethau therapi a diogelu o'r fath hefyd yn gofyn am ddeialog gyda Thîm Amddiffyn y plentyn, ond nid yw'n benderfyniad gan yr Heddlu na'r Gwasanaeth Diogelu Plant – er y dylid rhoi gwybod iddyn nhw bod plentyn yn cael therapi o'r fath.

Pre-Trial Therapy - Fundamental Principles | The Crown Prosecution Service (cps.gov.uk)

Os ydych chi'n ymarferydd sy'n gweithio gyda phlentyn sy'n dyst, yn ddioddefwr, neu'n un sydd dan amheuaeth, mae adnoddau defnyddiol ynglŷn â therapi cyn-treial ar gael trwy wefan Bluestar Project yn https://www.bluestarproject.co.uk/. Roedd Bluestar Project yn astudiaeth ymchwil a gafodd ei ariannu gan y Gronfa Drawsnewid ar gyfer Gwasanaethau Cymorth Cam-drin Plant yn Rhywiol y Swyddfa Gartref. Cafodd y prosiect ei noddi gan The Green House, sef gwasanaeth therapi a chymorth arbenigol i blant sydd wedi profi trais rhywiol.

Mae Bluestar Project wedi gweithio'n agos gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron, yr Heddlu, a gwasanaethau aml-asiantaeth i ddatblygu casgliad o adnoddau am ddim sy'n seiliedig ar dystiolaeth a all gynorthwyo ymarferwyr wrth weithio gyda phlentyn sy'n dyst, yn ddioddefwr, neu'n un sydd dan amheuaeth. Mae canllawiau penodol ar gael fel y manylir isod:

- Protocol/polisi lefel gwasanaeth i chi ei ddefnyddio'n lleol
- Canllawiau hawdd eu darllen ar gyfer therapyddion a chynghorwyr annibynnol ar drais rhywiol
- Canllaw i wneud nodiadau cyn-treial
- Taflen cyn-treial i gleientiaid sy'n oedolion
- Canllaw i redeg grwpiau cyn-treial
- Canllaw'r Heddlu o ran ymateb i geisiadau am nodiadau